Papur (1) - Tachwedd 2011 - Peilot - Haen Sylfaenol - Atebion

Arholwr yn unig

1. *(a)* (i) Cwblhewch y siec ganlynol drwy ysgrifennu'r swm mewn ffigurau ar y llinell sydd wedi'i darparu.

Banc y Bobl Dyddiad 7fed Tachwedd 2011

Taler Nia Gawn

Pedwar deg chwech o filoedd saith cant a phum punt yn unig

£ 46,705

Llofnod

(ii) Cwblhewch y siec ganlynol drwy ysgrifennu'r swm mewn geiriau ar y llinellau sydd wedi'u darparu.

Banc y Bobl Dyddiad 7fed Tachwedd 2011

Taler Harri Wyn Arall

Naw mil, pedwar cant a un deg saith punt yn unig

£ 9417

Llofnod

[2]

(b) Ysgrifennwch y rhifau canlynol yn nhrefn maint, gan ddechrau gyda'r lleiaf.

64 406 640 46 604 460

46, 64, 406, 460, 604, 640

[1]

(c) Ysgrifennwch

(i) swm 54 a 48,

$$\begin{array}{r} 54 \\ +\ 48 \\ \hline 102 \\ \hline {\scriptstyle 1} \end{array}$$

(ii) y rhif mae'n rhaid ei adio at 85 i wneud 113.

$$\begin{array}{r} {\scriptstyle 0\ 10\ 1}\ \cancel{1}\cancel{1}3 \\ -\ 85 \\ \hline 28 \end{array}$$

[2]

Trosodd.

0185 610003

Arholwr yn unig

2. *(a)* Cwblhewch y siâp canlynol fel y bydd yn gymesur o amgylch y llinell AB. [2]



Arholwr yn unig

(b) Lluniadwch *(draw)* ac enwch bedrochr sydd â 2 linell cymesuredd yn union. [2]



Enw'r pedrochr ..... Petryal .....

(c) Lluniadwch ac enwch driongl sydd ag 1 llinell cymesuredd yn union. [2]



Enw'r triongl ..... Triongl Isosgeles .....

0185 610005

Arholwr yn unig

3. *(a)* (i) Ysgrifennwch y rhif pedwar-digid lleiaf sy'n gallu cael ei wneud gan ddefnyddio pob un o'r rhifau 7, 5, 8 a 2.

2578

(ii) Ysgrifennwch yr **odrif** pedwar-digid mwyaf sy'n gallu cael ei wneud gan ddefnyddio pob un o'r rhifau 7, 5, 8 a 2.

8725

[2]

(b) Ysgrifennwch 4736

(i) yn gywir i'r 10 agosaf,

4740

(ii) yn gywir i'r 100 agosaf.

4700

[2]

(c) Faint o docynnau am £4.94 yr un sy'n gallu cael eu prynu gyda dau bapur £20?

£4.94 → £5 £5 × 4 = £20

Felly 4 tocyn

[2]

4. **Rhowch gylch o amgylch** y maint sydd yr amcangyfrif priodol ar gyfer y canlynol.

Cyfaint tegell	(1 litr)	100 ml	$10\,cm^3$	1 cl
Pwysau merch	60 g	(60 kg)	60 mg	600 kg
Y pellter o Lundain i Paris	(3400 km)	(340 km)	34 km	3·4 km
Arwynebedd y dudalen hon	($600\,cm^2$)	$6\,m^2$	$60\,mm^2$	$600\,cm^3$

[4]

Arholwr yn unig

5. Mewn raffl, mae 20 tocyn melyn sydd â'r rhifau 1 i 20 arnyn nhw a 30 tocyn gwyrdd sydd â'r rhifau 1 i 30 arnyn nhw yn cael eu gwerthu. Mae'r 50 tocyn i gyd yn cael eu rhoi mewn drwm ac mae un tocyn yn cael ei ddewis ar hap.

(a) Beth yw'r tebygolrwydd y bydd tocyn melyn sydd â'r rhif 7 arno yn cael ei ddewis?

$P(\text{melyn}, 7) = \frac{1}{50}$

[1]

(b) Mae Huw yn dweud bod tebygolrwydd dewis tocyn sydd â'r rhif 16 arno yn fwy na thebygolrwydd dewis tocyn sydd â'r rhif 26 arno.
Gan roi manylion llawn, eglurwch a yw Huw yn gywir ai peidio.

Mae Huw yn gywir. Mae yna dau tocyn gydag rhif 16 arno, felly $P(16) = \frac{2}{50}$, ond dim ond un tocyn gydag rhif 26 arno, felly $P(26) = \frac{1}{50}$.

[2]

0185 610007

Arholwr yn unig

6. Mae'r siart yn dangos nifer y bechgyn a'r merched ym mhob blwyddyn mewn ysgol.

Mae pob sgwâr llawn yn cynrychioli 12 disgybl.



(a) Faint o fechgyn sydd ym Mlwyddyn 7?

12 × 4 = 48

[1]

(b) Faint mwy o ferched na bechgyn sydd ym Mlwyddyn 9?

Merched: 72

Bechgyn: 66

06 yn fwy

[1]

(c) Amcangyfrifwch gyfanswm y disgyblion ym Mlwyddyn 10.

63 + 66 = 129 disgybl

[2]

(ch) Ydy nifer y disgyblion sy'n ymuno â'r ysgol wedi codi neu ostwng dros y 5 mlynedd diwethaf? Eglurwch eich ateb.

Mae e wedi gostwng gan bod nifer edd yn blynyddoedd 10, 11 llawer yn fwy na 7, 8, 9

[1]

Arholwr yn unig

7. *(a)* Ysgrifennwch y term nesaf ym **mhob un** o'r dilyniannau canlynol.

(i) 3, 9, 15, 21, 27

(ii) 85, 78, 71, 64, 57

[2]

(b) Mae Meleri yn meddwl am rif.
Mae hi'n adio 5 at ei rhif ac yna'n rhannu'r ateb â 6.
Ei hateb yw 8.
Beth oedd ei rhif?

$x \rightarrow [+5] \rightarrow [\div 6] \rightarrow 8$

$43 \leftarrow [-5] \leftarrow 48 \leftarrow [\times 6] \leftarrow 8$

[2]

(c) Symleiddiwch $5h + 6h - 4h$.

$7h$

[1]

(ch) Darganfyddwch werth $5a + 3b$, pan fo $a = 6$ a $b = 4$.

$5 \times a + 3 \times b$

$5 \times 6 + 3 \times 4$

$30 + 12 = 42$

[2]

(d) Mae cysylltiad rhwng cyfesurynnau x ac y y pwyntiau canlynol.

(1, 4) (2, 8) (3, 12) (4, 16) .....

Cwblhewch y cyfesurynnau ar gyfer y ddau bwynt canlynol sy'n dilyn yr un patrwm.

(10, 40) (*a*, 4*a*)

[2]

0185 610009

Arholwr yn unig

8. *(a)* Mae'r diagram yn dangos nifer o giwbiau sydd ag ochr 1 cm ac sy'n ffurfio siâp solet.



Nid yw'r diagram wedi'i luniadu wrth raddfa

Darganfyddwch, drwy gyfrif y ciwbiau, gyfaint y siâp a nodwch unedau eich ateb.

.....

.....

Cyfaint y siâp = 21 cm^3

[2]

(b) (i) Mesurwch faint $A\hat{B}C$.



$A\hat{B}C$ = 65 °

Arholwr yn unig

(ii) Ar y diagram isod, tynnwch y llinell PQ fel y bydd $P\hat{Q}R = 136°$.



(iii) Pa fath o ongl yw $P\hat{Q}R$?

Aflem

.....

[3]

0185 610011

Arholwr yn unig

9. *(a)* Mae Siôn wedi gwneud 237 o jygiau i'w gwerthu.
Mae e'n eu pacio nhw mewn cewyll *(crates)* sy'n dal 32 jwg yr un.
Faint o gewyll llawn fydd ganddo a faint o jygiau fydd yn weddill *(left over)*?

isfarsiwn

$32 \times 10 = 320$ | gormod ×

$32 \times 5 = 160$

$32 \times 2 = 64$ | 224

7

7 cewyll llawn

237
224
13 jwg ar ôl

[3]

(b) Cyfrifwch

(i) $\frac{3}{8}$ o 56,

$56 \div 8 = 7$

$7 \times 3 = 21$

[2]

(ii) 7% o 500.

10% → 50
5% → 25
1% → 5
2% → 10

[2]

$7\% = 5\% + 2\%$
$= 25 + 10 = 35$

Arholwr yn unig

10. Mae Carwyn yn mynd am dro yn ei gar. Mae e'n stopio ddwywaith yn ystod ei daith. Mae'r graff yn dangos ei daith.

(a) Pa mor bell y gwnaeth Carwyn deithio rhwng 09:00 a 10:00?

40 - 10 = 30 milltir

[1]

(b) Am faint o funudau i gyd y gwnaeth Carwyn stopio ar ei daith?

42 munud + 30 munud = 72 munud

[1]

(c) Heb gyfrifo unrhyw fuaneddau, eglurwch sut gallwch chi benderfynu a oedd Carwyn yn gyrru'n gyflymach cyn neu ar ôl stopio y tro cyntaf.

Roedd Carwyn yn gyrru yn gyflymach cyn stopio, gan bod y llinell yn fwy serth.

[1]

(ch) Faint o'r gloch gyrhaeddodd ef adref?

15:48.

[1]



Arholwr yn unig

11. Mae'r canlynol yn rhannau o amserlenni trenau rhwng Swindon a Coventry a rhwng Coventry a Durham.

Swindon		14:29	15:29	16:29	17:29	18:29
Reading	cyrraedd	15:00	16:00	17:00	17:55	19:01
	gadael	15:11	16:11	17:11	18:11	19:11
Coventry		16:22	17:23	18:22	19:22	20:25

Coventry		16:27	16:49	17:27	17:49	18:49
Birmingham	cyrraedd	16:48	17:16	17:48	18:17	19:17
	gadael	17:03	17:30	18:03	18:30	19:30
Durham		20:22	20:30	21:25	21:39	22:30

(a) Mae Enfys yn dal y trên 15:29 o Swindon i Coventry.
Faint o amser mae'r daith yn ei gymryd?

15.29 → 16.29 – 1 awr
16.29 → 17.00 – 31 munud
17.00 → 17.23 – 23 munud
1 awr 54 munud

[2]

(b) Mae Ioan yn cyrraedd gorsaf Reading am 14:55.
Mae e'n teithio ar y trên nesaf i Coventry ar gyfer cyfarfod a fydd, gan gynnwys y cerdded i ac o'r orsaf, yn cymryd cyfanswm o 1 awr 20 munud.
Yna mae e'n dal y trên nesaf i Durham.
Pryd mae e'n cyrraedd Durham?

Cyrraedd 14.55 – dal trên am 15:11
cyrraedd Coventry am 16:22
Cyfarfod 1 awr 20 munud → 17:42
Dal trên o Coventry am 17:49
Cyrraedd Durham am 21:39.

[4]

Arholwr yn unig

12. *(a)* Mae pob rhif cysefin yn odrif.
Eglurwch pam mae'r gosodiad *(statement)* hwnnw yn anghywir.

Mae 2 yn rhif cysefin gan taw dim ond 1 a 2 yw ei ffactorau. Mae 2 yn eilrif.

[1]

(b) Os ydych chi'n gwybod beth yw 0·25 o rif, eglurwch sut gallwch chi ddarganfod gwerth y rhif.

Mae 0.25 yn hafal i 25%. Sydd yn $\frac{1}{4}$ o rhif. Felly er mwyn darganfod y rhif byddwn yn rhedu lluosi a 4

[1]

(c) Eglurwch pa un o $\frac{3}{5}$ neu 65% sydd fwyaf.

$\frac{3}{5} = \frac{30}{50} = \frac{60}{100} = 60\% < 65\%$

Felly 65% sydd fwyaf

[1]

Arholwr yn unig

13. Mae bag coch yn cynnwys tri disg sydd â'r rhifau 3, 4 a 5 arnyn nhw.
Mae bag glas yn cynnwys pedwar disg sydd â'r rhifau 2, 3, 5 a 7 arnyn nhw.
Mewn gêm, mae chwaraewr yn tynnu un disg ar hap o bob un o'r ddau fag.
Y sgôr ar gyfer y gêm yw swm y ddau rif ar y disgiau.

(a) Cwblhewch y tabl isod, trwy ysgrifennu rhifau'r disgiau sydd ar goll a'r holl sgoriau posibl.

Bag glas \ Bag coch	3	4	5
7	10	11	12
5	8	9	10
3	6	7	8
2	5	6	7

[3]

(b) Darganfyddwch y tebygolrwydd y bydd y sgôr ar gyfer un gêm yn **llai na** 9.

P(llai na 9) = $\frac{7}{12}$.

[2]

(c) Mewn gêm, mae chwaraewr yn ennill os yw ef neu hi yn sgorio llai na 9.
Mae 240 o bobl yn chwarae'r gêm unwaith yr un.
Tua faint ohonyn nhw y byddech chi'n disgwyl iddyn nhw ennill gwobr?

$\frac{7}{12} = \frac{14}{24} = \frac{140}{240}$ Felly 140 person.

[2]

14. Defnyddiwch y ffaith bod $54 \times 116 = 6264$ i ysgrifennu'r atebion i'r canlynol.

(a) $5{\cdot}4 \times 11{\cdot}6 =$

62·64

[1]

(b) $0{\cdot}54 \times 116 =$

62·64

[1]

(c) $626{\cdot}4 \div 54 =$

11·6

[1]

Arholwr yn unig

15. Bob dydd Sadwrn am 5 wythnos, cafodd nifer y cwsmeriaid a aeth i mewn i siop a derbyniadau *(takings)* y siop eu cofnodi. Mae'r tabl isod yn dangos y canlyniadau.

Nifer y cwsmeriaid	500	220	460	400	240
Derbyniadau, mewn £oedd	7200	2400	5000	4600	3000

(a) Ar y papur graff isod, lluniadwch ddiagram gwasgariad o'r canlyniadau hyn. [2]



(b) Ysgrifennwch y math o gydberthyniad *(correlation)* sy'n cael ei ddangos gan y diagram gwasgariad.

Cydberthyniad Positif

[1]

(c) Tynnwch, â'r llygad, linell ffit orau ar eich diagram gwasgariad. [1]

(ch) Amcangyfrifwch y derbyniadau ar gyfer dydd Sadwrn pan oedd 320 o gwsmeriaid.

£4000

[1]

Trosodd.

Arholwr yn unig

16. *(a)* Lluniadwch helaethiad *(enlargement)* o'r siâp sydd wedi'i ddangos isod gan ddefnyddio ffactor graddfa 2.
Defnyddiwch y pwynt A fel canol yr helaethiad. [3]



(b) Lluniadwch adlewyrchiad o'r siâp sydd wedi'i ddangos isod yn y llinell $x = 1$. [2]



Arholwr yn unig

(c) Cylchdrowch y siâp sydd wedi'i ddangos isod trwy 90° yn glocwedd o amgylch y pwynt (2, 1).

[2]



17. **Lluoswm** dau rif yw –65.
Swm y ddau rif hyn yw 8.
Darganfyddwch y ddau rif.

13 x -5 = -65

13 (+ -) 5 = 8

13 a -5

[3]

Arholwr yn unig

18. *(a)* Mae darn **sgwâr** o bapur i gael ei blygu mewn hanner yn union, ac yna ei blygu mewn hanner yn union eto.
Mae'r darn sgwâr gwreiddiol o bapur yn gallu cael ei blygu yn y ffordd hon i wneud sgwâr neu driongl ongl sgwâr isosgeles.
Yn y ddau achos, tynnwch linellau ar y papur sgwâr gwreiddiol sy'n cael ei ddangos isod, i ddangos ble mae angen plygu'r papur.

(i) I wneud sgwâr.



(ii) I wneud triongl ongl sgwâr isosgeles.



[4]

(b) Darganfyddwch a thywyllwch ranbarth y pwyntiau y tu mewn i'r petryal $ABCD$ sy'n bodloni *(satisfy)* **y ddau** amod canlynol.

- Mae'r pwyntiau'n agosach at y llinell AB nag at y llinell DC.
- Maen nhw'n llai na 6 cm o'r pwynt C.

[3]



Arholwr yn unig

19. *(a)* Ffactoriwch $3x - 6$.

$3(x-2)$

[1]

(b) Darganfyddwch *n*fed term y dilyniant

5, 11, 17, 23, ...

+6 +6 +6

(1)	(2)	(3)	(4)
5	11	17	23
6	12	18	24

$6n-1$

[2]

(c) Ad-drefnwch y fformiwla $r = 5t - 7$ ar y ffurf $t =$ .....

$r = 5t - 7$

(+7) (+7)

$r + 7 = 5t$

(÷5) (÷5)

[2]

$$\frac{r+7}{5} = t$$

TUDALEN WAG